# Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân Cymru

## 3 Hydref 2016, Adeilad Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful

## Cofnodion

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Michael Prior (MP) | Cadeirydd Annibynnol |
| Cyng Janice Dudley (JD) | Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Cyng Sylvia Jones (SJ) | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru |
| Grant Mayos (GM) | Undeb y Brigadau Tân, Aelod Cyngor Gweithredol Cymru |
| Sean Starbuck (SS) | Undeb y Brigadau Tân |
| Adrian Hughes (AH) | Undeb y Diffoddwyr Tân wrth Gefn |

**Y Swyddogion oedd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Liz Aitken (LA) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Phil Haynes (PH) | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru (Ysgrifenyddiaeth)**

| | |
|---|---|
| Steve Pomeroy (SP) | Cangen Gwasanaethau Tân |
| Kerry Citric (KC) | Cangen Gwasanaethau Tân |
| Cerys Myers (CM) | Cangen Gwasanaethau Tân |

**Trwy Gyswllt Ffôn**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx (DD) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Paul Scott (PS) | Cymdeithas y Swyddogion Tân |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Cyng Tudor Owen | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Mick Crennell | Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân |

### EITEM AGENDA 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU

1. Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod a chroesawu'r Cyng Janice Dudley a oedd yn olynu'r Cyng Wynne Evans fel Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Dywedodd MP fod Mick Crennell wedi'i benodi'n Ysgrifennydd Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân yng Nghymru gan olynu Huw Jakeway, ond fod Mick Crennell wedi anfon ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn.

2. Dywedodd MP nad oedd Steve Pomeroy a Phil Haynes yn gallu aros ar gyfer y cyfarfod i gyd.

3. Cadarnhaodd yr aelodau nad oedd ganddynt unrhyw fuddiannau'n gwrthdaro.

## EITEM AGENDA 2 - COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

4. Cyfeiriodd MP at gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Ebrill a gwahoddodd yr aelodau i gytuno bod y cofnodion yn gywir. Ni wnaed unrhyw sylwadau a chytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

5. Cyfeiriodd MP at y materion oedd yn codi ac egluro y byddai'r eitemau ar yr agenda yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am *gostau gweinyddu, cylch gorchwyl a phenodi Aelodau Bwrdd*. Dywedodd SS ei fod wed methu cael y wybodaeth berthnasol am y pwynt gweithredu cyntaf ar *drefniadau pontio.* Gan fod yr ail bwynt gweithredu ar drefniadau pontio'n dibynnu ar gwblhau'r cyntaf, dywedodd MP y byddai'r ddau bwynt gweithredu'n cael eu gohirio tan y cyfarfod nesaf.

6. Gwahoddodd MP LA i roi'r newyddion diweddaraf ar achos Norman v Cheshire. Eglurodd LA fod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cwblhau camau 1 a 2 o'r Broses Datrys Anghydfod Mewnol ac yn aros am ymateb gan Undeb y Brigadau Tân. Dywedodd SS fod Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn Lloegr wedi derbyn hyfforddiant ar gyflog pensiynadwy a bod Awdurdodau Tân ac Achub Lloegr wedi cytuno ar ddull cyson o benderfynu beth oedd, a beth nad oedd yn bensiynadwy. Byddai Undeb y Brigadau Tân yn penderfynu ar eu safbwynt nhw wedyn. Dywedodd GM y byddai'n siarad â swyddogion lleol yr Undeb i gael eglurhad ar eu safbwynt yng Nghymru gan ddweud y gallai'r Undeb gael cytundeb i ohirio eu safbwynt tan i'r Awdurdodau Tân ac Achub gytuno ar ddull cyson. Dywedodd SS hefyd ei bod hi'n bwysig cael consensws ar gyflog pensiynadwy mewn da bryd gan y gallai hyn gael goblygiadau posibl ar Werthusiad 2016. Dywedodd y byddai'r mater yn cael ei drafod yn nigwyddiad y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar 11 Hydref ac awgrymodd y dylai cynrychiolwyr cyflogwyr Awdurdodau Tân ac Achub Cymru fynegi eu pryderon a chyfrannu at y trafodaethau hynny.

## EITEM AGENDA 3 - LLYWODRAETHU

7. Cyfeiriodd SP at FPSABW(16)01 a oedd yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar gostau gweinyddu'r Bwrdd, penodi Aelodau'r Bwrdd a gweinyddu gwaith y Bwrdd, yn cynnwys datblygu hyfforddiant a chynlluniau gwaith. Ystyriwyd pob pwynt yn ei dro:-

### *Penodi Aelodau Bwrdd*

i. Eglurodd SP mai unigolion yn hytrach na sefydliadau oedd yn cael eu penodi ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r aelodau am eu barn ynghylch a ddylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant benodi sefydliadau i'r Bwrdd, yn hytrach na phenodi unigolion yn uniongyrchol. Byddai hyn yn golygu y gallai'r union aelodaeth newid yn ôl yr angen drwy'r ysgrifenyddiaeth, heb orfod cael cymeradwyaeth bellach gan Ysgrifennydd y Cabinet; roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi anfon llythyr at ddau unigolyn newydd dros y misoedd diwethaf.

ii. Mynegodd SS bryder am y cynnig gan y gallai arwain at sefydliadau'n amrywio aelodaeth gan arwain at ddiffyg arbenigedd. Cytunodd MP fod cysondeb ac arbenigedd aelodau yn hanfodol i effeithiolrwydd y Bwrdd. Roedd PH yn fodlon

gyda'r cynnig cyn belled bod y Gweinidog yn ymwybodol o broses penodi cadeiryddion i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Ychwanegodd JD y byddai'r broses benodi yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau cysondeb ymhlith aelodau'r Bwrdd. Cytunodd DD fod cysondeb ymhlith aelodau'r Bwrdd yn hanfodol a gofynnodd a fyddai'r Bwrdd yn caniatáu dirprwyon. Cadarnhaodd SP fod hynny'n cael ei ganiatáu, gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd. Ychwanegodd LA fod pob Awdurdod Tân ac Achub yn gyfrifol am sicrhau bod gan yr aelodau y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gyflawni'r swydd. Cytunodd SS ac awgrymodd y dylid darparu'r un hyfforddiant i'r dirprwyon. Awgrymodd MP y dylai'r Bwrdd gadw at y broses benodi gyfredol h.y. sefydliadau i enwebu eu haelod-gynrychiolydd, ond y dylai'r enwebiad gynnwys enw dirprwy penodol.

***Gwaith y Bwrdd***

iii. Atgoffodd SP yr aelodau fod y Bwrdd wedi'i sefydlu i gynghori Gweinidogion Cymru ar reoli'r cynllun o safbwynt cyflogwyr ac aelodau'r cynllun. Er bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu fel ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd, ac y byddai bob amser yn gyfrifol am gyflwyno materion deddfwriaethol i'w trafod, ac yn cyfleu gwybodaeth gyda GAD, ni ddylai arwain gwaith cyffredinol y Bwrdd.

iv. Cytunodd a chadarnhaodd MP fod angen i'r aelodau gyflwyno eitemau er mwyn creu'r agenda. Gofynnodd MP i SS roi ei farn yn seiliedig ar ei brofiad o fod yn gynrychiolydd ar Fwrdd Cynghori'r Cynllun yn Lloegr a'r Alban. Dywedodd SS fod cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael eu cynnal cyn cyfarfodydd Bwrdd Cynghori'r Cynllun fel arfer. Roedd hyn yn galluogi'r Bwrdd Pensiwn Lleol i gyflwyno eitemau / pryderon i sylw Bwrdd Cynghori'r Cynllun. Awgrymodd SS fod y Bwrdd yn dosbarthu gwybodaeth i'r Bwrdd Pensiwn Lleol i amlinellu rôl Bwrdd Cynghori'r Cynllun ac egluro sut y gallai'r Byrddau ategu ei gilydd. Cytunodd DD y byddai dull cyson yn fuddiol ond er bod angen amlwg i raglennu agendâu dros y blynyddoedd nesaf (i ystyried y rhaglen werthuso, er enghraifft), byddai angen i'r Bwrdd barhau i fod yn hyblyg i ddatblygu a mynd i'r afael â materion wrth iddynt godi. Awgrymodd PS y dylai'r Byrddau Pensiwn Lleol a Bwrdd Cynghori'r Cynllun gyfathrebu gyda'r byrddau cyfatebol yn Lloegr. Dywedodd KC fod Clair Alcock, Cynghorydd Pensiwn y Diffoddwyr Tân sy'n gweithio i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, wedi gofyn am gael mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol. Atgoffodd MP yr aelodau fod Clair wedi cyflwyno llawer o ddigwyddiadau hyfforddi ar gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân gan nodi y byddai ei harbenigedd o fudd i'r Bwrdd. Cafwyd consensws y byddai Clair yn ychwanegiad gwerthfawr i'r Bwrdd.

***GWEITHREDU:*** **Llywodraeth Cymru i wahodd Clair Alcock i'r cyfarfod nesaf.**

***Costau Gweinyddu***

v. Eglurodd SP fod Trysorlys EM wedi datgan yn glir eisoes mai cyflogwyr ddylai dalu am gostau llywodraethu. Felly, ni fyddai costau Bwrdd Cynghori'r Cynllun a'r Byrddau Pensiwn Lleol yn cael eu priodoli i'r Cronfeydd Pensiwn. Awgrymodd SP y gallai'r Bwrdd drafod a ddylid sefydlu cyllideb ond ni fyddai Llywodraeth Cymru'n gallu cyfrannu at unrhyw fecanwaith cyllido. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gostau gweinyddu'r Bwrdd eisoes drwy dalu costau'r Cadeirydd

Annibynnol. Ychwanegodd SP fod dau o'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi gofyn i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a ellid dyrannu cyflog swyddog uwch i dalu treuliau cadeiryddion y Byrddau Pensiwn Lleol. Dywedodd SP fod Rheoliadau Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 yn rhoi'r grym i Awdurdodau Tân ac Achub dalu cadeirydd (neu aelodau) eu byrddau pensiwn lleol fel rhan o swyddogaethau rheoli'r cynllun. Felly, nid oedd angen penderfyniad gan y Panel i'w galluogi i wneud hyn.

vi. Roedd SS yn teimlo bod y Bwrdd angen cyllideb ar gyfer agweddau hyfforddi ac unrhyw gyngor actiwaraidd y gallai'r Bwrdd fod ei angen i gefnogi eu trafodaethau a'u cyngor; fel yn achos Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn Lloegr. Ychwanegodd KC fod y gyllideb ar gyfer y Bwrdd yn Lloegr yn deillio o gyfraniadau gan Awdurdodau Tân ac Achub nad oedd modd eu hadfer drwy'r broses grant atodol. Roedd MP yn rhannu barn aelodau'r Bwrdd fod hyfforddiant yn hanfodol er mwyn bod yn effeithiol. Gofynnodd MP i Lywodraeth Cymru gadarnhau faint o'r gyllideb a ddyrennir i Fwrdd Cynghori'r Cynllun yn Lloegr a chost y cyfraniadau gan bob Awdurdod Tân ac Achub yn Lloegr er mwyn trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

**GWEITHREDU**: **Llywodraeth Cymru i gadarnhau faint o'r gyllideb a ddyrennir i Fwrdd Cynghori'r Cynllun yn Lloegr a chost y cyfraniadau gan bob Awdurdod Tân ac Achub yn Lloegr.**

***Cylch Gorchwyl***

vii. Cyfeiriodd SP at y cylch gorchwyl diwygiedig a oedd yn cynnwys rhai o'r sylwadau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf.

[Gadawodd SP y cyfarfod.]

**EITEM AGENDA 4 – DIWYGIADAU I GYNLLUN PENSIWN DIFFODDWYR TÂN**

8. Cyflwynodd KC yr eitem ac ymdrin â phob un o'r diwygiadau arfaethedig yn ei dro.

***Gwahaniaethu ar sail Oedran (Gwyliau Cyfraniadau Pensiwn)***

i. Eglurodd KC fod y Swyddfa Gartref wedi cyflwyno eu gorchymyn diwygio a'i fod wedi dod i rym ar 30 Medi 2016. Roedd yn seiliedig ar gytundeb gydag Undeb y Brigadau Tân a'r Uchel Lys ym mis Tachwedd 2015. Roedd Llywodraeth yr Alban yn cynnal ymgynghorid byr ar yr un diwygiadau. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi llunio eu gorchymyn diwygio, a oedd yn adlewyrchu gorchymyn y Swyddfa Gartref i bob pwrpas, ac wrthi'n cael cyfieithu'r gorchymyn. Dywedodd KC fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn costau gan Adran Actiwari'r Llywodraeth a'i bod yn cael eglurhad o'r ffordd y dylid ymdrin â'r costau gan Drysorlys EM. Eglurodd KC fod swyddogion yn ystyried a oedd angen ymgynghoriad byr yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai cynnal ymgynghoriad yn oedi'r broses ymhellach. Ychwanegodd KC fod

ymgynghoriad gwreiddiol ar y mater hwn wedi'i gynnal yn 2012 a bod materion wedi'u codi fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw wedi cael sylw eisoes yn y gorchymyn drafft. Gofynnodd KC am farn y Bwrdd.

ii. Gofynnodd SS a oedd gorchymyn diwygio Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â deddfwriaeth y Swyddfa Gartref. Cadarnhaodd KC ei fod ac y byddai'r gorchymyn diwygio yn cwmpasu aelodau oedd wedi trosglwyddo pensiynau o gyflogaeth flaenorol. Dywedodd SS fod Undeb y Brigadau Tân wedi cyfrannu at ymgynghoriad y Swyddfa Gartref, ac yn rhan o gytundeb yr Uchel Lys, ac felly'n fodlon i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r gorchymyn heb gynnal ymgynghoriad pellach. Roedd DD a PH yn rhannu'r farn hon er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen pellach. Dywedodd PH fod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi derbyn nifer o alwadau ffôn ynghylch y mater hwn ac felly y byddai'n croesawu gweld y mater wedi'i ddatrys yn fuan.

iii. Dywedodd KC y byddai gan weithwyr rhwng 48-50 oed, a oedd wedi cwblhau 30 mlynedd o wasanaeth, hawl i dderbyn ôl-daliad, ac na fyddai unrhyw gyfraniadau gan weithwyr yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai cyflogwyr yn dal i gyfrannu. Roedd LA yn teimlo bod hyn yn annheg i Awdurdodau Tân ac Achub ond dywedodd SS fod gorchymyn yr Uchel Lys wedi dod i'r casgliad fod yna achos o wahaniaethu ar sail oedran yn erbyn gweithwyr, ac nid oedd yn cynnwys cyflogwyr. Dywedodd KC fod y ffaith fod cyflogwyr yn parhau i wneud cyfraniadau yn golygu na fyddai gweithwyr sy'n gadael y gwasanaeth yn ystod y cyfnod gwyliau cyfraniadau (e.e. ar sail salwch) o dan anfantais o safbwynt eu cyflog pensiynadwy. Byddai hwn yn parhau i gael ei gyfrif o'r dyddiad y gadawsant y gwasanaeth. Ychwanegodd KC fod costau GAD wedi dangos y byddai'r arbedion posibl i weithwyr yn ystod y cyfnod 2016-2022 yn £90,000 wedi'i rannu rhwng pob Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Byddai cyfraniadau cyflogwyr am yr un cyfnod ychydig yn uwch ond roeddynt yn isel o hyd o'u rhannu rhwng y tri Awdurdod a'r cyfnod 6 mlynedd. Nid oedd hyn yn faich ychwanegol gan fod Awdurdodau Tân ac Achub eisoes yn talu'r costau hyn.

iv. Dywedodd KC fod y Swyddfa Gartref wedi gofyn i Awdurdodau Tân ac Achub Lloegr gyflwyno camau i weithredu rhan o'r trefniadau (rhoi'r gorau i gyfraniadau misol gan aelodau sy'n gwasanaethu) ym mis Hydref 2016. Gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei gorchymyn diwygio, nid oedd yr Awdurdodau Tân ac Achub mewn sefyllfa i wneud yr un peth yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdodau wedi dweud y byddai'r amserlen hon wedi achosi problem iddynt o ran amseru ar gyfer y systemau cyflogres. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod rhai o'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi dechrau gwaith paratoadol er mwyn gweld pwy fyddai'r diwygiadau'n effeithio arnynt, ond byddent yn cydweithio gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn sicrhau bod dyddiadau gweithredu'n realistig o safbwynt cyflogres. Ychwanegodd KC fod GAD wedi datblygu cyfrifiannell i'r Swyddfa Gartref ei defnyddio i gyfrif yr ad-daliad cyfraniadau a oedd yn ddyledus i aelodau. Byddai costau'r gyfrifiannell yn cael eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref er mwyn i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru allu ei defnyddio.

v. Dywedodd KC y byddai cyngor i'r Gweinidog yn dweud bod y Bwrdd yn cytuno nad oedd angen ymgynghoriad pellach; fodd bynnag, byddai hefyd yn adlewyrchu'r sylw a wnaed am gyfraniadau cyflogwyr.

**GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i gynnwys yr holl sylwadau a fynegwyd yn y cyngor a gyflwynir i'r Gweinidog.**

***Diwygiadau i Reoliadau Cynllun 2015***

vi. Dywedodd KC fod Llywodraeth Cymru wedi llunio'r gorchymyn diwygio ond wedi dewis gohirio'r ymgynghoriad tan i'r Swyddfa Gartref ddadansoddi adborth yr ymgynghoriad ar eu gorchymyn diwygio drafft. Byddai gwneud hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar y diwygiadau data diweddaraf sydd ar gael.

***Newidiadau i'r rheoliad ar hawl partneriaid sy'n fyw i fudd-dal marwolaeth pan fyddant yn ailbriodi***

vii. Fel uchod, mae'r ymgynghoriad wedi'i ohirio tan i'r Swyddfa Gartref ddadansoddi adborth yr ymgynghoriad i'w orchymyn diwygio. Eglurodd KC fod cyfreithwyr Llywodraeth Cymru yn trafod diffiniadau 'cael ei ladd yn ei swydd' gyda'r Swyddfa Gartref. Byddai ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o opsiynau, yn cynnwys adolygiad llawn, yn wahanol i Orchmynion Lloegr a'r Alban. Mynegwyd rhai pryderon am oedi pellach o ran gweithredu'r trefniadau. Dywedodd GM ei fod yn ymwybodol o un person a oedd wedi ailbriodi. Ychwanegodd DD fod yna ddau achos, a mwy o bosibl, yn y Gogledd. Awgrymodd SS y gallai'r ddeddfwriaeth gyfredol fod yn atal rhai sy'n ystyried ailbriodi rhag gwneud hynny. Dywedodd fod Undeb y Brigadau Tân wedi ymateb i ymgynghoriad Lloegr i amlygu pryderon am wahaniaethu ar sail oedran - gallai person ieuengach fod yn fwy tebygol o ailbriodi ond nid oedd y ddeddfwriaeth bresennol yn hwyluso hynny. Byddai Undeb y Brigadau Tân yn darparu ymateb tebyg i ymgynghoriad Cymru.

## EITEM AGENDA 5 – GWERTHUSO

9. Cyfeiriodd MP at y dogfennau a roddwyd i'r aelodau – *amserlen werthuso ddangosol 2016* ac *adroddiad cynnydd y Rhaglen Werthusiadau*. Dywedodd fod yna gyfnod hir rhwng y cam gwerthuso cyfredol a'r cam nesaf ym mis Awst 2017 gan fod GAD yn dadansoddi'r data a dderbyniwyd gan Awdurdodau Tân ac Achub. Soniodd KC am yr oedi a gafwyd o ran cyflwyno data yr Awdurdodau i GAD. Nid oedd yr oedi wedi effeithio ar yr amserlen hyd yn hyn gan fod GAD wedi canolbwyntio ar elfennau eraill, ond roedd hi'n bwysig cadw at bob amserlen yn y dyfodol. Roedd hi'n debygol y byddai GAD yn troi at yr Awdurdodau gydag ymholiadau am ddata aelodaeth a symudiadau, ac anogodd KC yr Awdurdodau i ymateb i'r ymholiadau hynny o fewn yr amserlenni a nodwyd. Roedd KC wedi siarad â GAD ynglŷn â phryd y byddai'n briodol iddynt fynychu cyfarfod y Bwrdd. Roedd GAD wedi dweud na

fyddent yn gallu darparu unrhyw adborth ystyrlon ar y gwerthusiad tan hydref 2017.

10. Gofynnodd MP i bob Awdurdod Tân ac Achub gadarnhau eu sefyllfa mewn perthynas â data. Cadarnhaodd DD fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyflwyno'r data perthnasol ac nad oedd yn ymwybodol o unrhyw broblemau. Cadarnhaodd LA fod newid mewn systemau cyflogres Awdurdodau Tân ac Achub wedi cyfrannu at yr oedi o ran cyflwyno data gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd y data wedi'i gyflwyno erbyn hyn ac nid oedd LA yn ymwybodol o unrhyw broblemau pellach. Cadarnhaodd PH fod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi wynebu'r un broblem gyda'r gyflogres ond ychwanegodd fod gweinyddwyr eu cynllun wedi cael trafferth cyflwyno data erbyn y dyddiad cau gan fod rhaid iddynt brosesu datganiadau buddion blynyddol yr un pryd ar gyfer aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

11. Awgrymodd SS y byddai papur yn rhoi manylion tueddiadau aelodaeth yn fuddiol i'r Bwrdd wrth ddarparu cyngor i'r Gweinidog. Ychwanegodd PH fod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi nodi penderfyniad aelodau i optio allan fel problem ac y byddent yn ei hystyried ymhellach. Dywedodd KC fod y Bwrdd wedi derbyn papur ar Ddata Optio Allan a bod Llywodraeth Cymru'n ystyried pa mor rheolaidd oedd angen cyflwyno data i'r Bwrdd. Awgrymodd SS fod angen diweddariad o leiaf bob chwe mis i alluogi'r Bwrdd i weld tueddiadau.

**GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i goladu Data Optio Allan gan Awdurdodau Tân ac Achub a'i gyflwyno i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod.**

**EITEM AGENDA 6 – CYFRADDAU CYFRANIADAU GWEITHWYR: ARENILLION**

12. Atgoffodd KC yr aelodau eu bod wedi cael papur ar gyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2015. Yn y cyfarfod hwnnw, gofynnwyd i'r aelodau nodi cynigion ar gyfer monitro'r arenillion yn barhaus. Ers hynny roedd Llywodraeth Cymru wedi cyfrif yr arenillion cyfraniadau cyffredinol ar gyfer 2015-16 yn seiliedig ar ffurflenni pensiwn a gyflwynwyd gan bob Awdurdod Tân ac Achub. Dangosodd y cyfrifiadau bod yr arenillion cyffredinol ar gyfer Cymru, ar draws y tri Awdurdod a phob cynllun, yn 13.1%. Roedd hyn yn gyson â'r ffigur roedd GAD wedi'i amcangyfrif fel rhan o'u gwaith gwerthuso ar gynllun 2015. Gofynnwyd am farn yr aelodau.

13. Nododd yr aelodau fod yr arenillion uchaf yng nghynllun 1992. Mynegodd PH ei bryderon am aelodau yn ymddeol o Gynllun 1992 gan mai dyma'r brif ffrwd gyllido. Cymerodd aelodau a oedd yn ymuno â Chynllun 2015 le aelodau cynllun 1992, gan arwain at gyfraddau cyfrannu llawer is. Byddai lefel yr aelodau sydd wedi ymddeol/yn ymddeol o gynllun 1992, ynghyd â'r achosion posibl o optio allan o gynllun 2015, a chyfraddau cyfrannu is i gyd yn effeithio ar arenillion. Cytunodd LA ei fod yn bryder ac nad oedd y gwerthusiad blaenorol wedi rhagweld lefel yr ymddeoliadau posibl. Gofynnodd DD gwestiynau am y ffurflenni pensiwn a gyflwynwyd gan yr Awdurdodau Tân ac

Achub gan nodi mai dim ond Awdurdod y Gogledd oedd wedi darparu ffigurau ar gyfer y Cynllun Diwygiedig. Dywedodd KC fod y ffigurau'n seiliedig ar ffurflenni Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân a ddefnyddiwyd i gyfrif cyllid grant atodol y pensiwn. Gofynnodd KC i'r Awdurdodau Tân ac Achub wirio'r ffigurau a gyflwynwyd a chadarnhau bod y ffigurau'n gywir cyn gynted â phosibl.

**GWEITHREDU: Awdurdodau Tân ac Achub i adolygu'r data a gyflwynwyd fel rhan o ymarfer cyllido Grant Atodol y Pensiwn a chynghori Llywodraeth Cymru yn unol â hynny.**

14. Darparwyd papur i'r aelodau a oedd yn amlinellu costau cyffredinol cynllun pensiwn y diffoddwyr tân o 2011-12 i 2015-16. Eglurodd KC fod cyllid grant atodol gan y Trysorlys yn gwneud iawn am y gwahaniaeth rhwng incwm a gwariant. Dywedodd KC fod cyfraniadau cyflogwyr yn 2015-16 yn 19.37% o gyflog pensiynadwy ar draws yr holl gynlluniau.

15. Croesawodd SS y papur a oedd yn cadarnhau pryderon a fynegwyd gan PH. Ychwanegodd PH fod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer y rhai oedd yn ymddeol oherwydd salwch. Byddai diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Mynegodd PH bryder bod modd monitro'r ffigurau ond nid eu rheoli.

    [Gadawodd PH y cyfarfod].

16. Gofynnodd AH ai'r Bwrdd oedd yn gyfrifol am amcangyfrif y costau. Dywedodd MP fod cynghori'r Gweinidog ar ba mor fforddiadwy yw'r cynlluniau yn un o swyddogaethau pendant y Bwrdd. Soniodd SS am yr amcanestyniadau roedd GAD yn eu gwneud ar gyfer 2019 ymlaen gan awgrymu y gallai fod angen adolygiad pellach o amcanestyniadau hyd at 2018 yn ychwanegol at hyn pe bai lefelau ymddeol, optio allan ac ati yn uwch na'r hyn roedd GAD wedi'i amcangyfrif eisoes.

17. Trafodwyd cost gwaith o'r fath gan GAD. Dywedodd KC fod cyllid Llywodraeth Cymru i GAD yn gysylltiedig â'r ymarfer gwerthuso cyfredol a'r costau oedd yn gysylltiedig â chyngor ar ddiwygiadau i'r cynllun a ysgogwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd KC yn cydnabod bod y ffaith fod y Bwrdd yn gofyn am gyngor o'r fath yn cyfeirio'n ôl at bwynt cynharach SS ynglŷn â'r angen i'r Bwrdd gael cyllideb. Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru'n adolygu gwybodaeth werthuso gyfredol GAD, ac yn ei rhannu ag aelodau'r Bwrdd gyda golwg ar ofyn i GAD am ddyfynbris ar ailgyfrif rhai o'u hamcangyfrifon yn seiliedig ar ddata gwirioneddol sy'n ymwneud â 2015-16.

**GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i adolygu gwybodaeth werthuso GAD a'i rhannu ag Aelodau'r Bwrdd.**

18. Gofynnodd MP i SS ddarparu diweddariad ar y sefyllfa yn Lloegr. Dywedodd SS nad oedd Bwrdd Lloegr wedi trafod gwybodaeth am incwm a gwariant y gronfa bensiwn ac arenillion gwirioneddol y gweithwyr eto. Cytunodd SS i godi'r mater ac adrodd yn ôl pan fyddai gwybodaeth ar gael.

**GWEITHREDU: SS i holi bwrdd cynghori'r cynllun yn Lloegr am arenillion cyfraddau cyfraniadau gweithiwyr a darparu adborth i aelodau'r Bwrdd.**

19. Dywedodd LA y gallai'r canlyniadau gwerthuso arwain at faich ychwanegol ar gyllidebau'r Awdurdodau Tân ac Achub.

## EITEM AGENDA 7 – DIWEDDARIADAU GAN FYRDDAU PENSIWN LLEOL (YN CYNNWYS DYSGU CYFFREDINOL)

20. Cyfeiriodd MP at y cyfarfod blaenorol lle cytunwyd y byddai cynrychiolwyr Awdurdodau Tân ac Achub yn sicrhau bod dull cydlynol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer cyflwyno diweddariadau gan eu byrddau pensiwn lleol. Gwahoddodd MP gynrychiolwyr yr Awdurdodau i gyflwyno diweddariad.

21. Dywedodd LA nad oedd yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi cael cyfle i drafod y dull cydlynol. Roedd Bwrdd Pensiwn Lleol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael sesiwn hyfforddi cyn eu cyfarfod ac awgrymodd LA fod angen dull cydlynol o hyfforddi hefyd. Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn bwriadu cytuno ar gynllun hyfforddi gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill.

22. Bydd Bwrdd Pensiwn Lleol De Cymru'n recriwtio ar gyfer tair swydd. Wrth wneud hynny, byddai'n chwilio am aelodau gydag arbenigedd mewn materion pensiwn.

23. Dywedodd DD fod Bwrdd Pensiwn Lleol Gogledd Cymru wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein. Cytunodd DD fod angen dull hyfforddi Cymru gyfan ond awgrymodd oedi tan fis Mehefin 2017 yn dilyn canlyniad yr etholiadau lleol. Mynegodd y Cyng Jones bryderon am ddilyniant aelodau bwrdd. Holodd y Cyng Dudley a oedd yna oblygiadau o safbwynt craffu os yw cynrychiolwyr yn aelodau o fyrddau pensiwn lleol, y pwyllgorau craffu lleol a bwrdd cynghori'r cynllun. Dywedodd MP fod y mater hwn wedi'i godi o'r blaen gan gadarnhau nad oedd unrhyw beth yn atal unigolyn rhag bod yn aelod o fwrdd pensiwn lleol a bwrdd cynghori'r cynllun. Corff cynghori oedd Bwrdd Cynghori'r Cynllun ac nid oedd ganddo swyddogaeth graffu. Yr Awdurdod Tân ac Achub oedd yn gyfrifol am drefniadau yn lleol.

**GWEITHREDU: Awdurdodau Tân ac Achub i drafod dull cydlynol o gyflwyno diweddariadau yng nghyfarfodydd Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn y dyfodol.**

24. Dywedodd MP y byddai'n ddefnyddiol iddo, fel Cadeirydd Bwrdd Cynghori'r Cynllun, gyfarfod Cadeiryddion y Byrddau Pensiwn Lleol. Ychwanegodd MP y byddai'n croesawu gwahoddiad i fynychu pob un o gyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn y dyfodol.

25. Cyfeiriodd SS at lythyr oedd wedi'i ddosbarthu gan Gadeirydd Bwrdd Cynghori'r Cynllun i fyrddau pensiwn lleol yn Lloegr ac awgrymodd y dylid dilyn dull tebyg yng Nghymru. Cytunodd MP.

**GWEITHREDU: MP i ddrafftio llythyr a'i ddosbarthu i'r byrddau pensiwn lleol yng Nghymru.**

## EITEM AGENDA 8 – DIWEDDARIAD TRYSORLYS EM

26. Rhoddodd KC wybodaeth am ddau fater sy'n ymwneud â'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP). Cyfeiriodd KC at gyflwyno Pensiwn newydd y Wladwriaeth sydd wedi disodli Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth ac felly'r mecanwaith ar gyfer mynegeio a chydraddoli GMP. Roedd yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi derbyn cyngor eisoes ar y trefniadau ar gyfer y rhai oedd yn cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng Ebrill 2016 a Rhagfyr 2018. Dywedodd KC fod y Trysorlys yn datblygu dogfen i ymgynghori ar ateb hirdymor i fynegeio a chydraddoli. Cynghorodd KC aelodau'r Bwrdd i ystyried gohebiaeth ar y mater hwn gan Drysorlys EM gan y byddai yna oblygiadau i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Gofynnodd KC i'r Trysorlys gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub Cymru ac Undebau'r diffoddwyr tân ar y rhestr ymgynghori.

27. Dywedodd KC wrth y Bwrdd fod Trysorlys EM wedi sefydlu gweithgor i ystyried tandaliadau/gordaliadau hanesyddol yn ymwneud â GMP. Roedd y gweithgor yn ystyried a fyddai adfer unrhyw ordaliadau yn cynnig gwerth am arian; roedd Trysorlys EM wedi dileu taliadau o'r fath yn y gorffennol.

28. Cydnabu SS y lefel o waith oedd yn ofynnol gan Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau bod cofnodion aelodau yn gywir fel rhan o'r ymarfer hwn.

## EITEM AGENDA 9 – UNRHYW FATER ARALL A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

29. Gofynnodd MP a oedd gan yr aelodau unrhyw faterion yr hoffent eu codi nad oedd wedi'u trafod eisoes yn y cyfarfod. Dywedodd SS fod Undeb y Brigadau Tân wedi herio Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ar fater yn ymwneud â'r Oedran Pensiwn Gwarchodedig ac y byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd cyn y cyfarfod nesaf.

30. Diolchodd MP i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod gan awgrymu y dylai'r Bwrdd gyfarfod eto yn y Flwyddyn Newydd.

**GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i holi pryd mae aelodau ar gael a chadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf.**